Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

Cadeirydd:
Andrew Green
Prif Weithredwr:
Dr Ioan Matthews

Ffôn:
01267 610400
Ebost:
gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk
www.colegcymraeg.ac.uk

CYLCHLYTHYR

Dyfarniadau Grantiau Bach o'r Gronfa Datblygiadau Strategol

Dyddiad:	9 Awst 2016
Cyfeirnod:	Cyf:15/08
At:	Grŵp Ymgynghorol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cydlynwyr Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg sefydliadol a'r Swyddogion Cangen.
Ymateb erbyn:	Nid oes angen ymateb.
Cyswllt:	E-bost: prosiectau@colegcymraeg.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn cyflwyno'r rhestr ddiweddaraf o Grantiau Bach i'w cefnogi drwy Gronfa Datblygiadau Strategol y Coleg.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
http://colegcymraeg.ac.uk/cy/amdanomni/cylchlythyron/2015-16/

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn cyflwyno rhestr o'r Grantiau Bach diweddaraf i'w cefnogi gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol [y Coleg] o'r Gronfa Datblygiadau Strategol.

Dyfarniadau Grantiau Bach

2. Gwahoddwyd ceisiadau am Grantiau Bach drwy gylchlythyr a gyhoeddwyd ar 25 Mai 2016 (Cylchlythyr Cyf:15/05). Derbyniwyd 29 o geisiadau erbyn y dyddiad cau (1 Gorffennaf 2016).

3. Ar 18 Gorffennaf 2016, ystyriwyd y ceisiadau gan swyddogion y Coleg, ynghyd â Denise Williams, aelod o'r Panel Grantiau a Dr Hefin Jones, Deon y Coleg.

4. Ceir rhestr lawn o'r Grantiau Bach a ddyfarnwyd yn **Atodiad 1.**

Cyffredinol

5. Rhyddhawyd grant gan y Coleg ar gyfer y Grantiau Bach sydd wedi eu cefnogi ym mis Gorffennaf 2016.

6. Mae Swyddog Datblygu Prosiectau'r Coleg wedi cysylltu â'r Sefydliadau yn nodi unrhyw amodau sydd ynghlwm â'r dyfarniadau. Mae cyllido'r gweithgareddau yn amodol ar barodrwydd yr ymgeiswyr i gytuno â'r amodau. Disgwylir derbyn cadarnhad e-bost gan y sefydliad yn nodi eu bod yn derbyn yr amodau cyn Awst 31, 2016. Os na dderbynnir yr amodau, caiff y taliadau grant eu hadhawlio gan y Coleg.

7. Nodir amodau dyfarnu'r grant a'r gofynion adrodd a monitro yn glir yn yr ohebiaeth sydd yn cadarnhau rhyddhau'r grant. Mae'r amodau yn cynnwys darparu Adroddiad Diwedd Prosiect yn sgil y gweithgaredd yn nodi deilliannau a manylion gwariant yn llawn. Darperir templed Adroddiad Diwedd Prosiect gan y Coleg a bydd y Coleg yn adhawlio unrhyw danwariant.

8. Noder hefyd amodau cyffredinol sy'n cynnwys:

(i) **Cynhadledd**: Dylid annog pawb sy'n mynychu cynhadledd o dan nawdd y Coleg i ymaelodi â'r Coleg. Gall dangos tystiolaeth o enwau a rhifau aelodaeth fod yn allbwn penodol i'r prosiect, a dylid cynnwys y dystiolaeth hon yn yr Adroddiad Diwedd Prosiect.

(ii) **Marchnata/Cyhoeddusrwydd**: Disgwylir i unrhyw waith marchnata/ cyhoeddusrwydd gydnabod nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar bob achlysur, boed hynny mewn print neu ar-lein. Gwelir <http://www.colegcymraeg.ac.uk/brand> ar gyfer copi o logos y Coleg. Dylid sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n gywir yn unol â chanllawiau brand y Coleg. Danfonir canllaw penodol yn ymwneud â chynadleddau i drefnwyr cynadleddau ac mae copi o'r canllaw hefyd ar wefan y coleg - <http://www.colegcymraeg.ac.uk/cynadleddau>

(iii) **Hyrwyddo:** Dylid cysylltu â'r Rheolwr Cyfathrebu i wirio diwyg unrhyw ddeunydd hyrwyddo o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn cyhoeddi, sef Elin Williams 01267610408 e.williams@colegcymraeg.ac.uk.

(iv) **Cyhoeddiadau**: Disgwylir i bob cyhoeddiad gydnabod nawdd y Coleg yn unol â chanllawiau cyhoeddi'r Coleg a disgwylir i reolwr y prosiect gysylltu â Swyddog Cyhoeddiadau'r Coleg i wirio manylion perthnasol, sef Mari Fflur 02920 109020 m.fflur@colegcymraeg.ac.uk

(v) **Trwyddedi a hawlfraint**: Trwyddedir adnoddau/cyhoeddiadau ar lwyfannau e-ddysgu'r Coleg o dan drwydded Creative Commons e.e. CC BY-SA 4.0 oni bai bod amgylchiadau arbennig. Cyfrifoldeb rheolwr y prosiect yw sicrhau bod cyfranwyr yn ymwybodol o, ac yn cydsynio i, hyn. Cyfrifoldeb rheolwr y prosiect yw unrhyw waith clirio hawlfraint.

(vi) **Llwyfannau E-ddysgu:** Disgwylir gallu cyhoeddi pob adnodd/cyhoeddiad ar un o lwyfannau e-ddysgu'r Coleg, e.e. Y Porth, Y Llyfrgell Adnoddau, Yr Esboniadur a/neu safle iTunesU y Coleg. Dylai rheolwr y prosiect gysylltu â Rheolwr Gwasanaethau Gwybodaeth y Coleg cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau y datblygir yr adnodd/cyhoeddiad ar ffurf briodol sy'n addas ar gyfer y

llwyfan.

(vii) **Termau:** Os oes gennych ymholiadau'n ymwneud â thermau dylid cysylltu â Therminolegydd Addysg Uwch y Coleg, sef Dr Tegau Andrews t.andrews@bangor.ac.uk. Dilyner y ddolen isod er mwyn gweld yr adnodd - http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/adnoddau/termau/

(viii) **Allbynnau:** Disgwylir i bob dyfarniad gyflawni'r allbynnau a gytunwyd wrth ddyfarnu'r grant. Os na fydd y rhain yn cael eu cyflawni ni all rheolwr y prosiect wneud cynnig arall am grant am 3 mlynedd.

9. Yr oedd y ceisiadau sydd heb eu nodi yn y cylchlythyr hwn yn aflwyddiannus. Nid yw'n arfer gan y Coleg i gyhoeddi sylwadau ar geisiadau aflwyddiannus ond darperir adborth ar geisiadau aflwyddiannus yn sgil derbyn cais.

ATODIAD 1

Ceisiadau Grantiau Bach sydd wedi eu cefnogi

Teitl	Sefydliad	Rheolydd
Mewnfudo a pholisi iaith-mewn-addysg mewn cymunedau iaith lleiafrifol	Prifysgol Aberystwyth	Catrin Wyn Edwards
Merthyr Adfeiliedig - posibiliadau newydd ffilmiau dogfen collage: Greg Bevan	Prifysgol Aberystwyth	Greg Bevan
Rhewlifiant Neoproterosoaidd	Prifysgol Aberystwyth	Marie Busfield
Cyfieithu Detholion	Prifysgol Aberystwyth	Ned Thomas/ElinHGJones
Paratoi adnoddau ar gyfer rhedeg clybiau codio i ddisgyblion ysgolion cynradd.	Prifysgol Bangor	Delyth Murphy
Cynhadledd Technoleg Iaith	Prifysgol Bangor	Delyth Prys
Ymchwil i'r gwahaniaethau a'r effeithiau o gau canghennau banc yng Nghymru, o'i gymharu â gweddill y DU.	Prifysgol Bangor	Ed Jones
Tystiolaeth o ddealltwriaeth y 'cynnig rhagweithiol' ymysg myfyrwyr, staff, a defnyddwyr gwasanaethau drwy gyfrwng blog fideo neu bodcast.	Prifysgol Bangor	Gwerfyl Roberts
Archwilio rôl Llywodraeth Cymru yn y drefn o gydymffurfio ac adrodd ar gytundebau rhyngwladol, gan ddefnyddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel astudiaeth achos.	Prifysgol Bangor	Hayley Roberts
Nwyddau hyrwyddo Astudiaethau Gofal Iechyd.	Prifysgol Caerdydd	Anwen Davies
'Eitha different yndyn nhw… but it works': Deunyddiau sain a fideo ar groesi ffiniau ieithyddol yn y diwydiannau creadigol a llenyddiaeth.	Prifysgol Caerdydd	Dr Lisa Sheppard
Crefft y Stori Fer heddiw	Prifysgol Caerdydd	Dr Rhiannon Marks
Her Menter y Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Prifysgol De Cymru	Llŷr Roberts
Cefnogi pob plentyn	Prifysgol Cymru: Drindod Dewi Sant	Nanna Ryder